**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Claire Coutinho AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch
Ynni a Sero Net
Yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero Net

29 Chwefror 2024

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Adroddiad - Ynni Niwclear ac Economi Cymru

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Fel y byddwch yn ymwybodol, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig adroddiad yr wythnos diwethaf ar ei ymchwiliad ciplun undydd i Ynni Niwclear ac Economi Cymru.

Canolbwyntiodd yr adroddiad ar oblygiadau economaidd datblygiadau niwclear newydd yng Nghymru. O’r chwe argymhelliad yn yr adroddiad, mae’r mwyafrif yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru ac yn ymwneud â meysydd sy’n cynnwys datblygu sgiliau, cefnogi cadwyni cyflenwi Cymru, a gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag, mae penderfyniadau allweddol ar raglen niwclear sifil y DU yn fater a gedwir yn ôl, ac mae’r Pwyllgor wedi nodi 'Civil nuclear: roadmap to 2050' a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr. Mae argymhelliad 1 o’r adroddiad yn galw ar Lywodraeth y DU i nodi mwy o fanylion am ei chynlluniau, ac yn benodol “pryd y bydd yn cadarnhau’r safleoedd dynodedig ar gyfer prosiectau niwclear yn y dyfodol, y mathau o dechnoleg fydd yn cael ei defnyddio, a’r amserlenni ar gyfer gweithredu”.

Byddai'n ddefnyddiol, felly, i'r Pwyllgor gael ymateb i'r argymhelliad hwn gan yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero Net. Disgwyliwn i ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ein cyrraedd erbyn dydd Gwener 5 Ebrill, ac mae dadl yn y Senedd wedi cael ei threfnu ar gyfer dydd Mercher 17 Ebrill. Byddai’n ddefnyddiol iawn, felly, i’r Pwyllgor gael eich ymateb yn unol â’r amserlenni hynny.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru er gwybodaeth iddo.

Yn gywir,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Copi at: Y Gwir Anrhydeddus David Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg